OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1451 (Cy.129)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010

Gwnaed - - - - 18 Mai 2010

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) i (4)

Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), dyddiedig Medi 2009 ar ei adolygiad o'r ffiniau sirol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a'r cynigion a luniwyd gan y Comisiwn ar y mater hwnnw.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi eu heffaith i gynigion y Comisiwn heb eu haddasu.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd wedi'u breinio bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**):

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) neu i unrhyw ddiben a osodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar 1 Mehefin 2010.

(3) Daw erthygl 6 i rym—

(a) at ddibenion gweithrediadau rhagarweiniol i unrhyw etholiad sydd i'w gynnal neu sy'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr yn 2012, ar 15 Hydref 2011;

(b) at bob diben arall, ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr yn 2012.

(4) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2010, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau.

(**1**) 1972 p.70.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr Map A ("*Map A*"), Map B ("*Map B*"), Map C ("*Map C*") a Map D ("*Map D*") yn eu tro yw'r mapiau sydd wedi'u marcio A, B, C a D o Orchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010 ac sydd wedi'u hadneuo yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newid Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**3**); ac

os dangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

Newid ardaloedd llywodraeth leol

3. Gwneir newidiadau i'r ardal llywodraeth leol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn unol â'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn hwn.

Llandochau a Llanfihangel-y-pwll – newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

4. Mae'r rhan o gymuned Llandochau a ddangosir â chroeslinellau ar Fap A—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llanfihangel-y-pwll;

(b) yn ffurfio rhan o ward Llanfihangel-y-pwll yng nghymuned Llanfihangel-y-pwll; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Dinas Powys.

Llan-maes a Llanilltud Fawr – newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

5. Mae'r rhan o gymuned Llanilltud Fawr a ddangosir â chroeslinellau ar Fap B yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llan-maes.

6. Yng nghymuned Llanilltud Fawr—

(a) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros ward Trebefered yw 4;

(b) mae nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros ward y Gogledd yn parhau yn 5;

(c) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward y De-ddwyrain yw 3;

(ch) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros ward y Gorllewin yw 2.

Penarth a Sili – newidiadau mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

7.—(1) Mae'r rhannau o gymuned Sili a ddangosir fel ardaloedd croeslinellog "a" a "b" ar Fap C—

(a) yn cael eu trosglwyddo i gymuned Penarth;

(b) yn ffurfio rhan o ward Plymouth yng nghymuned Penarth; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Plymouth.

(2) Mae'r rhan o gymuned Penarth a ddangosir fel ardal groeslinellog "c" ar Fap C—

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Sili; a

(**3**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol ond nad yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol i'r offeryn statudol hwn).

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Sili.

Pendeulwyn a Llanddunwyd — newidiadau mewn ardaloedd cymunedol

8. Mae'r rhan o gymuned Llanddunwyd a ddangosir â chroeslinellau ar Fap D yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pendeulwyn.

Carl Sargeant
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

18 Mai 2010